CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

CAIS AM GYNLLUN PARCIO PRESWYLWYR – GWEITHDREFN,

MEINI PRAWF A GWYBODAETH GYFFREDINOL

## A - GWEITHDREFN/MEINI PRAWF

1. Yn sgil cais i gyflwyno cynllun parcio preswylwyr mewn stryd neu ardal, bydd preswylwyr yn cael holiadur bach yn gofyn am eu barn ar raddau ac ystent y broblem ac i sicrhau y byddai pawb yn cefnogi'r cais.

2. Byddai arolwg bach yn cael ei gynnal trwy ymweld â'r stryd bedair gwaith dros bythefnos gan amrywio amser a diwrnod yr ymweliad. Pe bai 85% o'r lle parcio sydd ar gael yn y stryd yn cael ei ddefnyddio ar gyfartaledd dros y pedwar ymweliad, byddai'r stryd yn gymwys am gyflwyno cynllun. Byddai'r arolwg hefyd yn pennu a oedd mynediad at barcio o'r cefn, cyfleusterau parcio yng nghwrtil tai neu le parcio oddi ar y stryd gyfagos. Os gwelir bod hyn ni fydd y stryd yn ddilys am gynllun parcio.

## B – GWYBODAETH GYFFREDINOL

1. Mae cynllun parcio preswylwyr o fudd mawr pan fo:

    - Strydoedd sy'n cael eu hystyried am gynllun yn agos at ganol tref, ardal gyflogaeth fawr, hwb trafnidiaeth, parc manwerthu neu sefydliadau neu ardaloedd eraill sy'n peri problem o ran y gallu i barcio oherwydd bod pobl nad ydynt yn breswylwyr yn parcio.

    - Cyfle i breswylwyr barcio wedi'i gyfyngu oherwydd bod pobl nad ydynt yn breswylwyr yn parcio.

2. Ni fyddai ardaloedd parcio preswylwyr wedi'u crynhoi mewn un lle, yn hytrach byddant wedi'u gwasgaru ar hyd y stryd ac ni fydd sicrwydd o le i barcio y tu allan i eiddo penodol.

3. Ni fyddai lleoedd y tu allan i safleoedd masnachol; y tu allan i fynedfeydd i eiddo; lle bo gorchmynion megis llinellau melyn dwbl ar waith; yn agos at gyffyrdd; ar unrhyw ran o stryd lle byddant yn peri problem i ddiogelwch priffordd.

4. Byddai angen ystyriaeth i sicrhau bod y sgil effaith ar strydoedd cyfagos yn sgil pobl nad oes trwydded parcio ganddynt yn parcio yno yn dderbyniol ac na fydd yn effeithio'n negyddol ar breswylwyr strydoedd cyfagos.

5. Ar strydoedd cul byddai caniatâd parcio ar un ochr y ffordd yn unig a bydd ystyriaeth am wneud y stryd yn ffordd unffordd.

6. Byddai ymgynghoriad pellach trwy anfon dogfen ymgynghori fer i breswylwyr gyda chynlluniau a manylion y cynllun arfaethedig. Byddai gofyn i breswylwyr lenwi holiadur byr yn gofyn am sylwadau.

7. Byddai angen gorchymyn traffig ar y cynllun ar gyfer yr ardaloedd cadw ynghyd ag unrhyw orchmynion traffig angenrheidiol eraill a phan fydd y rhain wedi'u hysbysebu gallai'r cynllun gael ei weithredu.

8. Preswylwyr sy'n dangos trwydded gyfredol yn unig fydd yn cael parcio yn yr ardaloedd ar gadw. I gael trwydded rhaid i breswylwyr ddangos prawf eu bod yn berchen ar ac yn gyrru cerbyd a bydd uchafswm o ddwy drwydded i bob cartref gyda'r cyfuniadau canlynol:

    - Hyd at 2 drwydded preswylydd
    - 1 drwydded preswylydd/1 drwydded ymwelydd
    - 1 trwydded ymwelydd

9. Nid yw trwydded yn darparu lle parcio unigol nac yn sicrhau'r hawl i barcio ger unrhyw eiddo penodol. Yn dibynnu ar nifer y trwyddedi y gwneir cais amdanynt a'r capasiti, nid oes ychwaith sicrwydd y byddai digon o leoedd parcio yn y stryd.

10. Byddai trwydded yn ddilys am 12 mis ond dylid ei newid os yw'r cerbyd yn newid. Ni fydd trwydded yn cael ei dosbarthu am gerbyd a chanddo dros 30 cwts o bwysau gweili.

11. Byddai'r Cyngor yn gyfrifol am ddosbarthu'r trwyddedau. Bydd cost gweinyddu am ddosbarthu trwyddedi, sydd ar hyn o bryd yn £34 y drwydded a chaiff ei hadolygu'n flynyddol.

12. Gall cost gweithredu cynllun amrywio'n sylweddol. Byddai angen rheoleiddiad traffig gan gynnwys arwyddion traffig a marciau ar y ffordd.

13. Byddai Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor yn gyfrifol am orfodi'r cynllun a byddant yn cynnal patrôl o'r ardal ar drefn rota ond efallai nid pob dydd.